John Griffiths AS
Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau
Senedd Cymru
Tŷ Hywel
Bae Caerdydd
CF99 1SN

09 Chwefror 2021

---

Annwyl John

**Deiseb P-05-1083 Dylid gwarchod lesddeiliaid yng Nghymru rhag talu am waith adfer cladin**

Trafododd y Pwyllgor Deisebau y ddeiseb uchod am y tro cyntaf yn ystod ein cyfarfod ar 29 Ionawr.

Cytunwyd i ysgrifennu atoch i dynnu sylw eich Pwyllgor at y ddeiseb a'r dystiolaeth a gawsom hyd yma yng nghyd-destun y gwaith yr ydych wedi'i wneud mewn perthynas â diogelwch tân mewn blociau preswyl uchel.

Cytunodd y pwyllgor hefyd i ysgrifennu at y Gwienidog Tai a Llywodraeth Leol i egluro gwerth unrhyw gyllid canlyniadol y mae Llywodraeth Cymru wedi'i gael o ganlyniad i wariant ar y mater hwn gan Lywodraeth y DU, ac i ba ddiben y defnyddiwyd y cyllid hwn hyd yn hyn.

Mae rhagor o wybodaeth am y ddeiseb, gan gynnwys gohebiaeth a gawsom, ar gael ar ein gwefan yn:
**https://business.senedd.wales/mgIssueHistoryHome.aspx?IId=29740**.

Os oes gennych unrhyw ymholiadau, cysylltwch â thîm clercio'r Pwyllgor drwy’r cyfeiriad e-bost uchod, neu drwy ffonio 0300 200 6454.

Yn gywir

Janet Finch-Saunders AS/MS
Cadeirydd/Chair